PROTOCOL ARFER GORAU TPC 1G

CYFLWYNO HYSBYSIADAU

Deddfwriaeth

1. Mae'r rheoliadau canlynol yn gosod y weithdrefn ar gyfer cyflwyno hysbysiadau:

- Rheoliad 40 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheoliad 35 o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestri ac Apelau) 1993 (OS 1993/290)
- Rheoliad 46 o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

Dull Cyflwyno (gan gynnwys post, e-bost)

2. Dylai partïon nodi eu hoff ddull cyfathrebu a nodi'n glir y cyfeiriad y maent yn dymuno Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) ei ddefnyddio.

3. Dylai partïon hysbysu TPC os bydd eu manylion gohebiaeth yn newid.

Cyflwyno trwy'r post

4. Bernir y bydd post dosbarth cyntaf wedi'i dderbyn ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl ei bostio a phost ail ddosbarth ar y pedwerydd diwrnod gwaith, oni bai bod prawf i'r gwrthwyneb.

Cyfathrebu electronig gyda'r Tribiwnlys

5. Bydd cyfathrebu electronig yn cael ei drin fel rhywbeth a wasanaethir ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl ei anfon oni bai bod prawf i'r gwrthwyneb.

6. Ni all system TG TPC dderbyn atodiadau o fwy na 10 megabeit.